# Eich hawliau fel cleifion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

Working with doctors Working for patients

General Medical Council

Mae meddygon, a'r system gofal iechyd gyfan, yn parhau i fod dan bwysau dwys o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19) sy'n parhau.

Disgwylir i feddygon wneud eu gorau mewn amgylchiadau eithriadol, gan ddarparu gofal da a dilyn ein harweiniad.  Mae hyn yn cynnwys trin pob claf gydag urddas a pharch, beth bynnag fo eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Rhaid bod pob claf yn gallu ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon.  Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r safonau y dylai cleifion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LGBT) eu disgwyl gan eu meddyg;  yr hyn yr ydym yn ei wneud i gynorthwyo cleifion LGBT; a gwybodaeth am sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyngor neu eiriolaeth.

# Cynnwys


| | Page |
|---|---|
| **Safonau ar gyfer eich meddyg** | 02 |
| **Profiadau gofal iechyd** | 04 |
| **Beth ydym yn ei wneud?** | 06 |
| **Pryderon am eich gofal** | 08 |
| **Sefydliadau cymorth LGBT** | 09 |

# Safonau ar gyfer eich meddyg

Mae'n harweiniad craidd, Arfer meddygol da yn nodi'r safonau a ddisgwylir gan bob meddyg. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddorion gofal da a sut y gall meddygon feithrin partneriaeth effeithiol gyda chi.

Mae'r arweiniad yn nodi'n glir bod yn rhaid i feddygon:

- eich trin yn deg, heb wahaniaethu
- gweithio gyda chi i wneud penderfyniadau am eich triniaeth a'ch gofal sy'n iawn i chi
- parchu eich cyfrinachedd a diogelu'ch gwybodaeth bersonol rhag datgelu amhriodol.

Ni ddylent:

- wrthod triniaeth neu wasanaethau priodol i chi oherwydd eu credoau personol (ee am eich cyfeiriadedd rhywiol, eich hunaniaeth o ran rhywedd neu'ch statws trawsrywiol)
- mynegi eu credoau personol, gan gynnwys eu credoau gwleidyddol, crefyddol a moesol, mewn ffordd sy'n debygol o beri gofid i chi.

Efallai y bydd angen i feddygon eich holi chi am eich cyfeiriadedd rhywiol, eich hunaniaeth o ran rhywedd neu'ch statws trawsrywiol, er mwyn iddynt allu cynnig triniaeth a gofal sy'n benodol i'ch anghenion. Fodd bynnag, ni ddylent ffurfio tybiaethau.  Dylent gyfathrebu â chi mewn ffordd nad yw'n barnu, a dylent fod yn gallu dweud wrthych sut y caiff gwybodaeth amdanoch chi ei defnyddio a'i storio.

Dylid trin statws rhywedd neu hanes pobl trawsrywiol ac anneuaidd gyda'r un cyfrinachedd ag y caiff gwybodaeth bersonol sensitif arall ei thrin. Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn rhoi hawl gyfreithiol i bobl trawsrywiol sicrhau preifatrwydd ar gyfer eu statws trawsrywiol. Gweler ein tudalennau gofal iechyd i bobl trawsrywiol am ragor o wybodaeth.

# Profiadau gofal iechyd cleifion LGBT

Nod mwyafrif helaeth y meddygon yw darparu gofal rhagorol i gleifion LGBT. Rydym wedi clywed nifer o straeon cadarnhaol lle y mae meddygon wedi trin cleifion LGBT mewn ffordd gynhwysol a sensitif. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod achlysuron yn codi lle nad yw'r gofal a ddarparir gan feddyg yn ddigon da.

## Enghreifftiau cadarnhaol lle y mae meddygon wedi trin cleifion LGBT mewn ffordd gynhwysol a sensitif

Meddyg yn deall y gwahaniaeth rhwng cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd wrth drin claf gwrywaidd a oedd yn hoyw ac yn drawsrywiol.

Meddyg yn darparu gofal aciwt sy'n holi claf am eu 'partner', heb ffurfio unrhyw dybiaethau am eu cyfeiriadedd rhywiol.

Meddyg mewn adran frys yn cynnig ffonio partner menyw hoyw sy'n ddifrifol wael, heb ffurfio unrhyw farn am eu perthynas.

## Achlysuron lle nad oedd y gofal a ddarparwyd gan feddyg yn ddigon da

Meddyg yn methu trin cleifion benywaidd lesbiaidd neu ddeurywiol yn gywir trwy beidio cynnig prawf ceg y groth iddynt.

Meddyg yn dynodi rhywedd claf yn anghywir ar ôl iddynt ddewis datgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Meddyg yn gwneud sylwadau sarhaus am gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd claf.

Mae LGBT in Britain:  health report gan Stonewall yn cynnwys enghreifftiau pellach o brofiadau pobl LGBT wrth fanteisio ar ofal iechyd. Ac mae ymchwil gan y sefydliad LGBT yn asesu anghydraddoldebau iechyd y mae cymunedau LGBT ar draws y DU yn eu hwynebu.

# Beth ydym yn ei wneud i gynorthwyo cleifion LGBT?

## Safonau ar gyfer meddygon

Rydym yn pennu'r safonau y mae'n rhaid i bob meddyg eu dilyn. Yn ein harweiniad Credoau personol ac Arfer meddygol da, rydym yn nodi bod yn rhaid i feddygon eich trin mewn ffordd deg, heb wahaniaethu, beth bynnag fo'ch cyfeiriadedd rhywiol, eich hunaniaeth o ran rhywedd neu'ch statws trawsrywiol.

Rydym yn dweud hefyd na ddylai meddygon wrthod triniaeth neu wasanaethau priodol i chi oherwydd eu credoau personol. Ac mae'n rhaid iddynt fod yn ofalus na fyddant yn mynegi eu credoau personol mewn ffordd sy'n debygol o beri gofid i chi.

Ar ein tudalennau gofal iechyd ar gyfer pobl trawsrywiol, rydym yn darparu cyngor i feddygon ynghylch sut i sicrhau bod eu harfer yn fwy cynhwysol.

## Gweithio gyda chleifion LGBT

Mae'n timau allgymorth yn gweithio gyda chleifion LGBT er mwyn deall yr anghenion iechyd yr ydych yn eu hwynebu yn well. Rydym yn cynnwys grwpiau LGBT yn ein gwaith polisi hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu eich anghenion a'ch pryderon. Yn ystod ein hymgynghoriad ynghylch sut y defnyddir adborth cleifion yn y broses ailddilysu, gweithiom gyda'r Sefydliad LGBT er mwyn deall ofnau cleifion ynghylch rhoi adborth am eu meddyg. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol hefyd megis Stonewall a GLADD (Cymdeithas Meddygon a Deintyddion LGBTQ+) i sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu materion y mae cleifion LGBT yn eu hwynebu.

## Addysg ac asesiadau

Mae'n timau allgymorth yn cynnwys sefyllfaoedd LGBT yn eu sesiynau addysgu gyda meddygon. Er enghraifft, rydym yn defnyddio sefyllfa lle y bydd meddyg yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun hoyw fel rhan o'n sesiwn arweiniad ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth.

Yn ogystal, rydym yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chleifion LGBT yn ein profion ar gyfer meddygon a oedd wedi cymhwyso mewn gwlad dramor ac sy'n dymuno gweithio yn y DU.

## Cwynion ynghylch gofal ar gyfer cleifion

Rydym yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i unrhyw honiad bod meddyg wedi methu dilyn ein harweiniad a byddwn yn ystyried yr holl bryderon a fynegir i ni.  Rydym yn casglu data am y cwynion a gawn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â meddyg sy'n gwahaniaethu yn erbyn claf oherwydd eu bod yn unigolyn LGBT.

# Yr hyn i'w wneud os byddwch yn pryderu am eich gofal

Bydd mwyafrif y meddygon yn trin eu cleifion gyda chwrteisi a pharch. Ond os byddwch yn teimlo bod meddyg wedi gwahaniaethu yn eich erbyn neu'ch trin mewn ffordd wahanol oherwydd eich cyfeiriadedd rhywiol neu'ch hunaniaeth o ran rhywedd, mae gennych yr hawl i gwyno.

Mae angen i sefydliadau wybod pwy ydych chi er mwyn ystyried eich pryderon yn llawn. Eich penderfyniad chi yw datgelu a ydych chi'n unigolyn LGBT. Os byddwch yn gwneud hynny, gallai gynnig cyd-destun defnyddiol.

## Mynegi pryder yn lleol

Dylech fynegi'r pryderon hyn i'r sefydliad lle y cawsoch eich triniaeth yn y lle cyntaf. Bydd modd datrys y rhan fwyaf o faterion yn lleol.

Mae nifer o wasanaethau helpu lleol sy'n gallu eich cynorthwyo gyda hyn

## Mynegi pryder i ni

Os bydd meddyg yn peri risg difrifol i gleifion, neu os bydd eu gweithredoedd yn debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn meddygol, efallai y bydd angen i ni ymyrryd. Pan fyddwn o'r farn nad yw meddyg yn addas i wneud gwaith meddygol efallai, gallwn osod cyfyngiadau ar eu cofrestriad neu eu hatal rhag gwneud gwaith meddygol.

Rhagor o wybodaeth ynghylch mynegi pryderon gyda ni

# Sefydliadau sy'n gallu eich cynorthwyo

Efallai y bydd o gymorth i chi hefyd siarad gyda sefydliadau sy'n cynorthwyo cleifion LGBT yn benodol neu sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth.

## Lloegr

### Stonewall

Mae'n cynnig cyngor a chymorth gydag unrhyw faterion sy'n effeithio ar bobl LGBT yn Lloegr.

### Sefydliad LGBT

Elusen genedlaethol sy'n darparu cyngor, cymorth a gwasanaethau gwybodaeth i gymunedau LGBT ac sy'n cynnig cymorth i gleifion y mae ganddynt bryderon ynghylch gwahaniaethu.

## Gogledd Iwerddon

### The Rainbow Project

Mae'n cynorthwyo iechyd a lles pobl LGBT a'u teuluoedd.

### Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon

Mae'n cynnig cyngor a gwybodaeth gyfrinachol ac am ddim i unrhyw un sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin mewn ffordd annheg oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, yn y gwaith, mewn addysg ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.

### LGBT Switchboard NI

Mae'n cynnig clust i wrando a chymorth i gymunedau LGBT yng Ngogledd Iwerddon.  Mae yno hefyd er mwyn helpu unrhyw un sy'n teimlo ar wahân neu sy'n dymuno cael cymorth gyda'u hiechyd meddwl.

## Yr Alban

### Stonewall Scotland

Mae'n cynnig cyngor a chymorth gydag unrhyw faterion sy'n effeithio ar bobl LGBT yn Yr Alban.

### LGBT Health & Wellbeing

Mae'n darparu adnoddau a gwasanaethau cymorth er mwyn helpu pobl LGBT i roi sylw i faterion iechyd sy'n effeithio ar eu bywydau.

### LGBT Youth Scotland

Mae'n darparu amrediad o adnoddau a gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl LGBT ifanc yn Yr Alban.

## Cymru

### Stonewall Cymru

Mae'n cynnig cyngor a chymorth gydag unrhyw faterion sy'n effeithio ar bobl LGBT yng Nghymru.

### Gwasanaeth Cwnsela a Llinell Gymorth LGBT Cymru

Mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfrinachol ar faterion sy'n effeithio ar bobl LGBT, eu teulu a'u ffrindiau.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**

Gwefan: **gmc-uk.org**

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyhoeddwyd Chwefror 2021
© 2021 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae modd atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/LGBTPR/0221

General Medical Council